Gwobr Lluniadu Kyffin Williams 2012
Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Nod

Nod Gwobr Lluniadu Kyffin Williams yw hyrwyddo a gwobrwyo sgiliau o safon uchel yng Nghymru.

Mae Gwobr Lluniadu Kyffin Williams yn cefnogi ac yn cydnabod gwaith pob arlunydd yn y maes lluniadu, gan gynnwys arlunwyr cydnabyddedig a hefyd gwaith arlunwyr sy'n datblygu ac sy'n ymarfer eu sgiliau arlunio.

Beirniaid

Mae'r gystadleuaeth yn cael ei barnu gan banel o feirniaid fydd yn cynnwys arlunwyr, curaduron ac aelodau'r Ymddiriedolaeth.

Beirniaid
Yr Athro Derec Llwyd Morgan: Cadeirydd, Ymddiriedolaeth Syr Kyffin Williams
Paul Joyner, Llyfrgell Genedlaethol Cymru:
Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Syr Kyffin Williams
Gareth Parry: Arlunydd
Mary Lloyd Jones: Arlunydd
Sarah Carvell: Arlunydd

Y ganolfan weinyddol ar gyfer y wobr fydd Oriel Ynys Môn, sef partneriaeth weithio rhwng Ymddiriedolaeth Syr Kyffin Williams ac Oriel Ynys Môn.

Cydlynydd y wobr yw: Nicola Gibson, Swyddog Celf, Oriel Ynys Môn.

Cyffredinol

Bydd yr holl waith ar gyfer yr arddangosfa yn waith fydd, ym marn y panel dewis, yn gymwys fel lluniadau. I bwrpas y gystadleuaeth hon fe ddisgrifir lluniad fel: gwaith celf gwreiddiol, mewn dau ddimensiwn, fel arfer ar bapur, wedi ei wneud o farciau graffig fydd yn cynnwys y defnydd o linell o fewn y darlun.

Bydd pob gwaith yn cael ei dderbyn i'w gyflwyno ar y ddealltwriaeth hon, a bydd penderfyniad y Panel yn derfynol. Ni fydd unrhyw lythyru. Ni chaiff y beirniaid, aelodau o'u teuluoedd, Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Syr Kyffin Williams na staff Oriel Ynys Môn ymgeisio.

Rhaid i'r holl waith fydd yn cael ei gyflwyno fod ar gael trwy gydol yr arddangosfa.

Mae pob gwaith a wnaed ers Ionawr 2011 yn gymwys i'w roi i mewn.

Rhaid i bob arlunydd gytuno i'w waith gael ei gynnwys yn yr E-Arddangosfa.

Manylion
Rhaid i bob darlun fod wedi ei ddilysu gan yr arlunydd (e.e. ei arwyddo a'i ddyddio) mewn lle priodol.

Rhaid i bob darlun fod wedi'i fframio (er mwyn diogelu a chyflwyno'r darlun yn briodol).

Rhaid i'r fframiau fod yn rhai cryf ar gyfer eu handlo; ni fydd fframiau metal a fframiau clip yn cael eu derbyn.

Y trefnwyr fydd yn gyfrifol am hongian yr holl fframiau a rhaid cael platiau drych arnynt; wedi'u gosod yn y canol bob ochor i'r ffrâm a'u troi i mewn yn ystod eu cludo.

Rhaid cyflwyno darluniau cyfansawdd o fewn un ffrâm.

Yr arlunwyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu gwaith yn cyfarfod â'r meini prawf hyn.

Gofalu am y Gwaith
Byddwn yn cymryd gofal mawr o'r holl waith fydd wedi ei gyflwyno i'w ddewis, ond ni fydd trefnwyr Gwobr Lluniadu Kyffin Williams yn gyfrifol am unrhyw ddifrod i waith fydd yn digwydd yn ystod ei handlo, boed y difrod wedi ei achosi gan y trefnwyr, eu tîm staff neu fel arall.

Argymhellir defnyddio fframiau pacio i ddiogelu gwaith hynod o fregus yn ystod ei gludo.

Argymhellir yn gryf bod yr ymgeiswyr yn trefnu eu hyswiriant eu hunain i'r gwaith, gan mai dim ond gwaith a ddewisir gan y Panel fydd yn cael ei yswirio trwy gydol yr arddangosfa.

Rhybudd o Benderfyniad y Panel Dewis
Bydd yr holl artistiaid yn cael gwybod trwy lythyr am benderfyniad y Panel Dewis erbyn **Mai 31, 2012**. Os na fydd rhybudd ysgrifenedig wedi ei dderbyn erbyn y dyddiad hwn, cysylltwch â Chydlynydd yr Arddangosfa os gwelwch yn dda.

Cyflwyno gwaith
Gall artistiaid gyflwyno gweithiau yn y canolfannau a ganlyn:
Oriel Ynys Môn, Llangefni
(rhwng 10.30yb – 4.00yh, Medi 4-5, 2012)
Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
(rhwng 10.00yb – 12.00yh & 2.00yh – 3.00yh, Medi 4, 2012)
Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd
(rhwng 10.00yb – 12.00yh & 2.00yh – 3.00yh, Medi 4, 2012)

Dychwelyd gwaith
Ar ddiwedd yr arddangosfa bydd y darluniau yn cael eu dychwelyd yn ystod yr ail wythnos o Chwefror, 2013, i'r pwynt casglu lle cawsant eu gadael yn y lle cyntaf (oni bai i chwi dderbyn rhybudd ysgrifenedig i'r gwrthwyneb). Byddant ar gael i'w casglu o Oriel Ynys Môn: rhwng 10.30yb - 4.00yh, Chwefror 4, 2013. Dyddiad ac amser casglu i'r Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac yr Amgueddfa Genedlaethol Cymru yw cadarnhau. Os bydd y tywydd yn troi yn arw yn ystod amser dychwelyd y gwaith, bydd artistiaid yn cael eu cynghori o drefniadau gwahanol.

Bydd yr arlunwyr sydd yn methu casglu eu gwaith ar y dyddiad penodedig yn cael eu dal yn gyfrifol am ffioedd storio oherwydd casglu'n hwyr. Nodwch, os gwelwch yn dda, nad yw'n bosibl eu storio ar ôl y dyddiad casglu. Bydd gwaith heb ei gasglu erbyn y dyddiad penodedig yn cael ei roddi i gwmni storio annibynnol a bydd raid i'r arlunwyr dalu ffi wrth ei gasglu.

Gwerthu'r gwaith
Codir comisiwn o 30% ar bob gwerthiant + TAW (20%) ar y comisiwn. Fe ddylid cynnwys y comisiwn 30% + TAW ym mhob pris gwerthu a nodir gan yr arlunydd. Bydd gwaith a werthir ar gael i'w nôl o Oriel Ynys Môn ar ôl yr arddangosfa. Os bydd angen y gwaith ar gyfer arddangosfeydd pellach, byddwn yn gofyn am ganiatâd y perchennog(ion) newydd.

Bydd angen rhoi yswiriant ar bob un o'r darluniau cyn eu nôl.

Unwaith y bydd gwaith wedi ei dderbyn, bydd wedi'i yswirio trwy gydol yr arddangosfa.

Hawlfraint
Byddwn yn gofyn i'r holl arlunwyr a gafodd eu gwahodd am ganiatâd i Ymddiriedolaeth Syr Kyffin Williams ddefnyddio eu darluniau neu ddelweddau o'u darluniau yng nghyswllt y gystadleuaeth, yr arddangosfa neu unrhyw bwrpas cyfreithlon arall.

Cyn-weledigad a Gwobrwyon
Bydd pob arlunydd fydd wedi ei ddewis ar gyfer Gwobr Lluniadu Syr Kyffin Williams yn cael ei wahodd i'r cyn-weledigad preifat ar Hydref 19, 2012 pan fyddwn yn cyhoeddi'r gwobrwyon. Bydd gwobrau ariannol i'r tri arlunydd a enwir ar y ffurflen gais, ac ni cheir trosglwyddo'r wobr, ac ni fydd ar gael mewn unrhyw ffurf arall.

Dull ymgeisio
Gall pob ymgeisydd gyflwyno hyd at 3 llun.
Bydd angen ffi handlo na ellir ei dychwelyd ar gyfer pob llun fydd yn cael ei gynnig i'r gystadleuaeth fel canlyn: £15 am y gwaith cyntaf; £20 am ddau a £25 am dri. Gwnewch y siec yn daladwy i Oriel Ynys Môn os gwelwch yn dda.

Postiwch eich ceisiadau i: Oriel Ynys Môn, Rhosmeirch, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TQ neu e-postiwch: ngxlh@anglesey.gov.uk

Arddangosfa
Bydd hyd at 100 llun yn yr arddangosfa, yn ôl penderfyniad y beirniaid.

E-Arddangosfa
Bydd hon yn cynnwys yr holl waith a roddwyd i mewn ac a wahoddwyd i gyflwyno gwaith i'r arddangosfa a bydd yn dangos manylion catalog yr holl artistiaid.

Ffurflenni Cais
Rhaid eu cyflwyno erbyn Mai 1, 2012.
Raid llenwi'r ffurflenni ac amgáu'r ffi briodol am y nifer o luniau a gyflwynir. Ar gyfer pob gwaith fydd yn cael ei gyflwyno, rhaid i'r arlunydd gyflwyno delwedd o ansawdd dda (gall hyn fod ar CD, Jpeg, ffotograff neu sleid: os yw'r gwreiddiol mewn lliw rhaid i'r ddelwedd hefyd fod mewn lliw).

Mai/Mehefin 2012: Bydd yr arlunwyr a ddewiswyd yn cael eu gwahodd i anfon eu manylion i Oriel Ynys Môn ac fe ddywedir wrthynt sut i gyflwyno eu gwaith ac yn lle. Bydd pob arlunydd yn derbyn pecyn ymgeisio fydd yn cynnwys: ffurflen caniatâd hawlfraint, ffurflen gwerth yswiriant, CV a ffurflenni gwybodaeth datganiad arlunydd, labeli ar gyfer y lluniau a manylion ynglŷn â lle a phryd i gyflwyno'r gwaith(iau). Nodwch os gwelwch yn dda, fydd y Panel Dewis yn gwneud penderfyniad terfynol ar ba luniau fydd yn cael eu cynnwys yn yr arddangosfa ar y diwrnod beirniadu olaf yn Oriel Ynys Môn.

4-5 Medi 2012: bydd y canolfannau'n derbyn lluniau rhwng 10.00yb – 4.00yh, (gweler tudalen 2 am fanylion). Onid yw darlun yn cael ei gyflwyno mewn man

casglu priodol ni fydd yn cael ei gynnwys yn y gystadleuaeth. Bydd yr holl ddarluniau wedyn yn cael eu cludo i Oriel Ynys Môn.

Hydref 2012: Beirniadu a hongian y lluniau. Cyhoeddir enwau'r enillwyr yn yr agoriad. Lansio e-arddangosfa o'r holl ddarluniau a ddewiswyd. Cyn-weliad Preifat yn OrielYnys Môn, Hydref 19, 2012.

Ionawr 20, 2013: diwedd yr arddangosfa.

Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

Beth yw'r darlun mwyaf y gallaf ei gyflwyno?
Y maint mwyaf ar gyfer eich gwaith yw 1.5m x 1m, yn cynnwys y fram.

Pa fframiau sy'n addas?
Bydd unrhyw ffrâm bren gref o wneuthuriad da yn dderbyniol. Mae'r mathau hyn o fframiau yn sicrhau bod wyneb eich gwaith yn cael ei ddiogelu, ac meant yn ddigon cryf i'w cludo o le i le.

Oes rhaid i fy ngwaith fod wedi ei arwyddo a'i ddyddio?
Oes. Os ydych eisoes wedi framio eich gwaith ac nad ydych eisiau ei dynnu o'r ffrâm, neu ddim yn dymuno arwyddo a dyddio blaen eich gwaith rhag ofn tarfu ar y ddelwedd, arwyddwch a dyddiwch gefn y ffrâm os gwelwch yn dda.

Alla i roi lluniad cyfansawdd mewn fframiau ar wahân?
Na. Rydym yn gofyn am i waith cyfansawdd gael ei gyflwyno mewn un ffrâm er mwyn sicrhau ein bod yn cyflwyno'r gwaith yn ei gyfanrwydd i'r Panel Dewis.

Pa gyfrwng alla i ei ddefnyddio?
Ni does cyfyngiad ar y cyfrwng: bydd yn rhaid i'r gwaith celf, fodd bynnag, fod yn ddau ddimensiwn.

Myfyriwr ydw i – ydw i'n gymwys i gystadlu am y prif wobrau neu ddim ond am y gwobrau i fyfyrwyr?
Fel myfyriwr rydych yn gymwys i gystadlu am y prif wobrau a'r gwobrau i fyfyrwyr.

Rwyf ym mlwyddyn olaf fy astudiaethau – gaf i ymgeisio fel myfyriwr?
Cewch.

Byddaf ar fy ngwyliau ar y dyddiadau cyflwyno / dychwelyd. Fydd hi'n bosib i mi gyflwyno / casglu fy ngwaith?
Bydd. Ond ar ddyddiau penodol yn unig y bydd y canolfannau yn derbyn/dychwelyd ac o'r herwydd bydd angen i chwi drefnu i gynrychiolydd ddanfon/casglu eich gwaith i chwi pan fydd y canolfannau ar agor. Gall fod yn aelod o'r teulu, cyfaill neu gludydd.

Cafodd y gwaith rwyf am ei gyflwyno ei wneud fis Rhagfyr 2010. A yw'n dal yn gymwys i'w roi i mewn?
Na. Dim ond gwaith a wnaed ers Ionawr 2011 sy'n gymwys i gystadleuaeth Gwobr Lluniadu Syr Kyffin Williams 2012.

I ble dylwn i ddychwelyd fy ffurflen gais ar ôl ei llenwi?
Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i llenwi a'r taliadau ffi handlo i: Nicola Gibson, Oriel Ynys Môn, Rhosmeirch, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TQ.

Beth fydd yn digwydd wedyn?
Byddwch yn derbyn llythyr erbyn Mai 31, 2012 yn dweud os ydych yn cael eich gwahodd ai peidio i arddangos yn Oriel Ynys Môn. Os na fyddwch wedi derbyn llythyr erbyn y dyddiad hwn, cysylltwch â chydlynydd yr arddangosfa, os gwelwch yn dda.

Oes rhaid i mi wneud rhywbeth os caiff fy ngwaith ei ddewis?
Os bydd eich gwaith yn cael ei dderbyn byddwch yn derbyn pecyn ymgeisio yn dweud beth fydd angen ei gynnwys gyda'ch darlun. Gallwch anfon unrhyw wybodaeth ychwanegol trwy e-bost, copi caled neu trwy lenwi'r ffurflenni, ac os byddwch yn ysgrifennu â llaw, sicrhewch eich bod yn defnyddio prif lythrennau, os gwelwch yn dda, er mwyn osgoi problemau golygyddol. Gofynnir i chwi ddarparu bywgraffiad byr (uchafswm o 150 gair), a datganiad am eich gwaith a ddewiswyd (uchafswm o 150 gair). Byddwn angen yr wybodaeth hon erbyn Awst 1, 2012 er mwyn gallu paratoi copi i'w gynnwys yng nghatalog yr e-arddangosfa.

Efallai y byddwn yn cysylltu gyda'r enillwyr i gael gwybodaeth bellach cyn cyhoeddi'r canlyniadau'n gyhoeddus.